



YMWELD, COFNODI, MWYNHAU

Canllaw Dechreuol i
Dreftadaeth a Bywyd
Gwylt Safleoedd Claddu



Pam Safleoedd Claddu?

Mae mwy nag 20,000 o safleoedd claddu yng Nghymru a Lloegr, yn amrywio o fynwentydd eglwys canoloesol gwledig, bach i fynwentydd dinesig Fictoraidd, mawr sy'n rhychwantu gwahanol ddiwylliannau, crefyddau a chanrifoedd.

Gall safleoedd claddu fod yn weddillion y dirwedd a arferai eu hamgylchynu, yn gartref i blanhigion, anifeiliaid a phryfed sydd bellach yn brin yn ein cefn gwlad ehangach. Mewn ardaloedd trefol gallant fod yn hafan i fywyd gwyllt, yn ofod heddychlon i bobl a darparu gofod gwyrdd hanfodol mewn ardaloedd adeiledig.

Hefyd mae safleoedd claddu'n ymgorffori hanes cymunedau, maent yn dweud wrthym ni am ffasiwn, statws a mewnffurfio, am fyw oes hir a bywydau trasig o fyr. Maent yn llefydd llawn straeon.

Mae Gofalu am Erw Duw yn gweithio'n genedlaethol i gefnogi grwpiau ac unigolion i ymchwilio i'r safleoedd unigryw hyn, gofalu amdanynt a'u mwynhau.



Canllaw Dechreuol i Dreftadaeth a Bywyd Gwyllt Safleoedd Claddu

Pam y pecyn hwn?

Bydd y canllaw hwn yn eich arwain chi drwy eich ymweliadau cyntaf â safleoedd claddu ac yn eich addysgu i adnabod rhai o'r nodweddion adeiledig a'r bywyd gwyllt ynddynt. Unwaith y byddwch yn gallu adnabod rhai rhywogaethau a nodweddion, byddwn yn dangos i chi sut i'w cofnodi.

Mae 'cofnod biolegol' yn gofnod o weld bywyd gwyllt. Mae arbenigwyr angen y cofnodion hyn er mwyn deall dosbarthiad bywyd gwyllt ledled y DU. Mae gan bob sir ganolfan ar gyfer cofnodi bioamrywiaeth ac mae hyn yn galluogi i ni ddeall pa mor eang yw eu dosbarthiad, yn ogystal â gweld ble mae poblogaethau'n cynyddu neu'n dirywio. Gallwch chi fod yn rhan o hyn hefyd, mae'n bwysig cofnodi rhywogaethau cyffredin yn ogystal â rhai prin er mwyn rhoi'r darlun llawn. Daliwch ati i ddarllen am fwy o wybodaeth.

Mae treftadaeth adeiledig safleoedd claddu yn bwysig i archeolegwyr a haneswyr. Drwy astudio'r nodweddion adeiledig, gallwn ddysgu am agweddau at farwolaeth a'r newidiadau mewn cred, strwythurau teuluol a statws cymdeithasol. Mae steil a deunyddiau cofgolofnau a beddau'n olrhain datblygiad y celfyddydau ac arddulliau lleol.

Gobeithio y bydd y canllaw hwn yn tanio eich diddordeb mewn safleoedd claddu a bywyd gwyllt yn gyffredinol. Mae pob adran yn y pecyn yma'n rhoi awgrymiadau ar gyfer ble ddylech fynd os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth.

Pam Cofnodi'r hyn rydych yn ei weld?

Mae cofnodi'r bywyd gwyllt rydych yn ei weld yn hynod ddefnyddiol i helpu amrywiaeth o bobl sydd â diddordeb mewn deall nifer a dosbarthiad gwahanol rywogaethau ledled y DU. Gallai'r rhain gynnwys rheolwyr safleoedd claddu, cynllunwyr tref, archeolegwyr, ymchwilwyr, ecolegwyr, cofnodwyr eraill, arbenigwyr a grwpiau bywyd gwyllt lleol. Mae beth rydych yn ei weld a ble rydych yn ei weld yn bwysig a byddem wrth ein bodd pe baech yn dod yn gofnodwr ac yn ychwanegu at yr wybodaeth gasgliadol sy'n bodoli am fywyd gwyllt y DU.

I gofnodi beth rydych yn ei weld mewn safleoedd claddu byddem yn hoffi i chi ddefnyddio ein ffurflen iRecord. Mae hon ar gael drwy'r dudalen **Rhannu Eich Cofnodion** ar ein gwefan ni www.caringforgodsacre.org.uk Mae hyn yn hawdd ac mae fideo a chyfarwyddiadau i'ch arwain chi drwyddi.

Bydd yr holl ddata sy'n cael eu casglu drwy iRecord, gan gynnwys y cofnodion rydych yn eu cyflwyno, ar gael drwy Atlas y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, sydd am ddim ac ar gael i bawb.

Cofnodi'r Dreftadaeth Adeiledig

Mae Casgliad y Werin Cymru yn galluogi unigolion a grwpiau i uwchlwytho unrhyw beth a phopeth sy'n gysylltiedig â hanes a threftadaeth Cymru. Efallai bod gennych chi ffotograffau neu ddogfennau cysylltiedig â'ch teulu, eglwys neu safle claddu sydd o ddiddordeb www.peoplescollection.wales

Archwilio yw'r cofnod o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ein hamgylchedd adeiledig hanesyddol. Chwiliwch amdano ar-lein i gael gwybod am y safleoedd yn eich ardal chi. Mae Ap Archwilio ar gael hefyd.



Cyn eich ymweliad...

Mae mynwentydd dinesig a mynwentydd eglwys a chapel ar agor i'r cyhoedd yn gyffredinol ac nid oes raid i chi roi gwybod i reolwyr y safle cyn ymweld. Efallai bod rhai rhannau o'r fynwent yn benodol ar gyfer crefyddau arbennig lle mae arferion yn gysylltiedig ag ymweld â beddau ac nid yw ymweliadau cyffredinol yn briodol. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u marcio ar fap yn aml ac efallai y byddant ar gau.

Os ydych chi'n bwriadu ymweld gyda grŵp mwy, cysylltwch â warden yr eglwys neu reolwr y fynwent. Mae ei fanylion cyswllt ar gael wrth fynedfa'r eglwys neu'r capel fel rheol, neu ar y wefan.



Paratowch drwy wisgo dillad addas ar gyfer yr amser o'r flwyddyn ac esgidiau addas i gerdded ar draws amrywiaeth o arwynebau meddal. Ewch â llyfr nodiadau gyda chi a chamera os yw hynny'n bosib, a gallai chwyddwydr fod yn ddefnyddiol hefyd. Mae amrywiaeth o apiau ar gyfer tabledi a ffonau ar gael ar gyfer adnabod bywyd gwyllt a allai fod yn ddefnyddiol, yn enwedig os ydych chi eisiau dysgu adnabod cân adar.


Byddwch yn ddiogel, os ydych chi'n mynd allan ar eich pen eich hun, rhwch wybod i rywun i ble rydych chi'n mynd a phryd rydych chi'n bwriadu bod yn ôl. Ewch yng ngolau dydd, gall safleoedd claddu fod yn llawn peryglon baglu oherwydd y cyrbiau sydd ar y cerrig beddau a'r cerrig llorweddol, ac mae arwynebau anwastad oherwydd gweithgarwch bywyd gwyllt.

Byddwch yn gyfforddus, mae llawer o safleoedd claddu'n hygyrch gyda seddau, sy'n eu gwneud yn llefydd perffaith i archwilio a mwynhau bywyd gwyllt os oes gennych chi gyfyngiadau symud. Bydd eistedd yn dawel yn gyfle i chi wyllo, gwrando ar ac adnabod bywyd gwyllt. Gall chwilio ar-lein am wybodaeth am y safle claddu roi gwybodaeth am hygyrchedd neu rif ffôn y gallwch ei ffonio i gael rhagor o wybodaeth.

Byddwch yn sensitif, mae safleoedd claddu yn llefydd arbennig. Parchwch yr ardal o amgylch beddau newydd a'r rhai sy'n cael ymweliadau rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd yn croesawu ymwelwyr ac er bod bywyd gwyllt a hanes safleoedd claddu'n rhyfeddol, rhaid i chi ddeall nad dyma eu prif bwrpas.

Rhannau o flodyn

Efallai y bydddech yn hoffi dysgu enwau'r rhannau ar flodyn, weithiau maent yn cael eu defnyddio i adnabod rhywogaethau.





Eirlys

Galanthus

Yn blodeuo ddiwedd Rhagfyr - Mawrth

Mae gan eirlysiau ddail gwyreddlas cul sy'n tyfu ym môn y planhigyn, dim ond un blodyn gwyn pur yn hongian yn llipa ar bob coesyn a blaen gwyrdd ar y petalau mewnol.



Briallu

Primula vulgaris

Yn blodeuo Ionawr - Ebrill

Mae briallu gwyllt yn fach ac yn rhyw 12 cm o uchder, gyda blodau melyn golau a phum petal sy'n uno mewn tiwb bychan yn y gwaelod. Mae'r blodau'n tyfu o fôn y planhigyn ar goesynnau hir. Mae dail gwyrdd rhychog yn tyfu mewn rhosglymau ac mae blew oddi tanynt. Maent yn hoffi cysgod ac amodau llaith. Efallai y gwelwch chi amrywiaethau gardd hefyd, sy'n lliwiau llachar.



Llygad Ebrill

Ranunculus ficaria

Yn blodeuo Chwefror - Ebrill

Un o flodau cyntaf y flwyddyn. Planhigyn byr yw hwn gydag un blodyn melyn sgleiniog ar bob coesyn a dail siâp calonnau ar goesau hir. Mae'r blodau'n cau cyn daw glaw ac yn ystod y nos.



Cenhinen Bedr

Narcissus

Yn blodeuo Mawrth - Ebrill

Amrywiaethau gardd mae'n debyg yw'r cennin Pedr melyn llachar sydd i'w gweld mewn safleoedd claddu. Fodd bynnag, efallai bod cennin Pedr gwyllt ar y safleoedd, yn enwedig yn agos at ymylon coetir ac mewn ardaloedd llaith. Mae cennin Pedr gwyllt yn llai (hyd at 30cm o uchder) ac yn oleuach na'u cefndryd gardd. Mae ganddynt betalau melyn golau o amgylch trwmped melyn tywyllach. Byddant yn edrych fel bod eu lliw wedi pylu ac yn fach a bydd llawer ohonynt.

Clychau'r Gog

Hyacinthoides

Yn blodeuo Mawrth – Mai

Mae gan glychau'r gog flodau siâp cloch nodedig ar un ochr y coesyn a dail hir, cul.

Mae llawer o'r clychau'r gog sydd i'w gweld yn ein gerddi ac mewn ardaloedd trefol yn rhai hybrid. Maent yn groes rhwng ein clychau'r gog brodorol a chlychau'r gog Sbaenaidd. Mae gan yr hybrid ddail lletach a blodau bob cam o amgylch y coesyn. Mae petalau pob cloch yn agor yn lletach yn y pen ond yn yr amrywiad brodorol maent yn cyrlio. Mae posib cofnodi'r esiamplau brodorol a hybrid fel clychau'r gog heb fod angen rhoi rhagor o fanylion.



Briallen Fair

Primula veris

Yn blodeuo Ebrill - Mai

Mae gan friallu Mair ddail gwyrdd tywyll a chrych gydag ymylon danheddog. Mae'r dail yn tyfu bob cam o amgylch bôn y planhigyn gan ddechrau'n llydan ac wedyn yn gul tuag at y blaen. Mae gan y blodau melyn siâp cloch bum petal gyda hicyn bach ar ymyl uchaf y petalau. Mae'r blodau wedi'u hamgáu gan galys hir gwyrdd siâp tiwb ac maent i'w gweld mewn clystyrau ar bob planhigyn, sy'n gwyro i un ochr.

Mae sawl gwahanol fath o flodau menyn, fodd bynnag y tri sy'n cael eu disgrifio yma yw'r rhai mwyaf cyffredin.

Blodyn Menyn Ymlusgol

Ranunculus repens

Yn blodeuo Mai - Awst

Mae'r rhywogaeth hon i'w gweld yn tyfu yng nghanol glaswellt byr. Mae'n tyfu yn agos at y ddaear ac yn creu rhedwyr hir sy'n lledaenu i boblogi'r ardal. Mae'r dail wrth fôn y planhigyn yn flewog gyda choesynddau hir ac maent wedi'u torri i gyd yn dair adran ddanheddog. Mae'r blodau'n felyn cryf, sgleiniog gyda phum petal a phum sepal. Mae'r sepalau'n flewog ac yn gafael am y petalau oddi tanynt.



Blodyn Menyn

Ranunculus acris

Yn blodeuo Ebrill – Hydref

Gall y blodau menyn yma dyfu i fod yn 20-90 cm o uchder. Mae eu sepalau'n felynwyrdd ac yn gafael am y petalau oddi tanynt, ond maent yn syrthio i ffwrdd yn fuan iawn unwaith mae'r blodau'n agor, gan adael pen hadau gwyrdd pigog. Mae gan y dail ym môn y planhigyn goesyddau hir ac maent wedi'u rhannu'n ddwfn yn 3 i 7 llabed danheddog. Mae gan y dail ar y coesynddau goesau byrion ac nid oes gan y dail uchaf goesau na dannedd. Mae'r sudd yn annymunol ar y croen a gall achosi pothelli.



Blodyn Menyn Bondew

Ranunculus bulbosus

Yn blodeuo Mawrth - Mai

Mae hwn yn edrych yn debyg i'r blodyn menyn ymlusgol; fodd bynnag, mae gan y planhigyn fwlb llawer mwy fel chwydd wrth ei fôn. Y brif nodwedd ar gyfer adnabod y rhywogaeth yma yw sepalau; nid ydynt yn gafael o amgylch y petalau, yn hytrach maent yn troi'n ôl tuag at y coesyn.





Glesyn y Coed

Ajuga reptans

Yn blodeuo Ebrill – Gorffennaf

Mae hwn yn blanhigyn byr sy'n ymledu. Mae gan lesyn y coed ddail hirgrwn sy'n ymledu'n rhosglwm yn ei fôn, a dail llai yn tyfu i fyny pigyn ei flodyn. Mae'r blodau'n tyfu ar bigyn sy'n tyfu ar i fyny'n fertigol, gan dyfu i 20cm o uchder.



Y Feddyges Las

Prunella vulgaris

Yn blodeuo Mehefin – Hydref

Mae'r feddyges las yn blanhigyn byr gyda dail pâr, hirgrwn a blodau glas neu fioled eu lliw ar ben hadau sy'n aros ar ôl blodeuo. Mae'n edrych yn debyg i lesyn y coed i ddechrau, ond mae gan y feddyges las dop fflat ar ben y blodyn ac mae glesyn y coed yn siâp côn.

Llygad Doli

Veronica chamaedrys

Yn blodeuo Ebrill – Mehefin

Mae llygad doli yn blanhigyn byr (hyd at 20cm) ac yn un o sawl gwahanol fath o rwyddlwyn. Mae ganddo bigau talsyth o flodau glas llachar gyda phedwar petal a chanol gwyn. Cadwch lygad am ddwy res o flew gwyn hir bob ochr i'r coesynnau, meddylwch am y trowsus rhimynnog oedd Indiaid Americanaidd yn ei wisgo yn y ffilmiau cowboi. Mae'r blew yma'n wahanol ar y llygad doli o gymharu â phob math arall o rwyddlwyn.




Pys-y-ceirw

Lotus corniculatus

Yn blodeuo Mai – Medi

Mae pys-y-ceirw yn aelod o deulu'r pys. Mae ei flodau melyn yn edrych fel sliperi bach ac yn ymddangos mewn clystyrau bach. Mae gan y petalau uchaf linellau coch arnynt. Maent yn cael eu dilyn gan godau hadau sy'n edrych yn debyg iawn i draed neu grafangau adar, a dyma ble mae'n cael ei enw yn Saesneg. Yn blanhigyn byr, mae ei ddail wedi'u gorchuddio gan flew mân meddal. Mae ei flodau coch a melyn yn rhoi enw arall i'r blodyn yma hefyd, 'wyau a chig moch'.



Llygad-Ilo Mawr

Leucanthemum vulgare

Yn blodeuo canol Ebrill – Mehefin

Yn edrych fel llygad y dydd mawr, mae ganddo flodau gwyn gyda chanol melyn crwn. Mae llygad-ilo mawr yn tyfu ar goesynnau hir hyd at 70cm o uchder gydag un blodyn ar ben pob coesyn. Mae'r dail yn ddanheddog ac yn amrywio o ran maint, maent yn troelli rownd y coesyn gan ddechrau'n fawr yn y gwaelod a lleihau mewn maint wrth fynd i fyny.



Llygad y Dydd

Bellis perennis

Yn blodeuo drwy gydol y flwyddyn

Mae gan lygad y dydd ddail siâp llwy sy'n ffurfio rhosglwm ym môn y planhigyn, yn agos at y ddaear ac yng nghanol glaswellt byr. Mae ganddo un coesyn sy'n cario pen y blodyn – nid dim ond un blodyn yw hwn, ond cyfuniad o nifer o flodau mân sy'n creu'r ddisgen felen yn y canol ac mae'r fflurynnau pelydr gwyn yn edrych yn union fel petalau.

Gall rhywogaethau o laswellt fod yn anodd eu hadnabod. Yn ddelfrydol, bydd gan safle claddu sawl gwahanol fath o laswellt ar uchder amrywiol, yn hytrach nag un rhywogaeth yn rheoli, fel cae chwarae. Beth am weld faint o wahanol fathau o laswellt allwch chi ddod o hyd iddynt? Dyma rai esiamplau.



Maswellt Penwyn



Cynffonwellt y Maes



Rhonwellt y Ci



Troed y Ceiliog

Waliau Terfyn

Roedd safleoedd claddu'n cael eu hamgáu fel gofod sanctaidd ac i atal anifeiliaid rhag ymyrryd â'r tir. Gellir adnabod safleoedd Cristnogol cynnar (cyn-Normanaidd) caeedig oddi wrth eu siâp cylch yn fras a gallant fod ar safleoedd cyn-Gristnogol hyd yn oed. Gall hen fapiau a chofnodion plwyf ddangos hanes y terfynau hyn. Yn cael eu hadeiladu fel rheol yn ôl y dull lleol, gan ddefnyddio deunyddiau adeiladu lleol, gallant fod yn nodedig yn eu hadeiladwaith.

Gall hen waliau greu cynefinoedd gwyech ar gyfer cennau, mwsoglau a rhedyn. Mae eu cilfachau a'u tyllau oer a thywyll yn creu microgynefinoedd ar gyfer planhigion sy'n debyg i'r rhai a geir ar wynebau creigiau naturiol, ac ambell rywogaeth gardd, ac maent yn gartref i bryfed ac yn safleoedd torheulo i fadfallod.

Mae'r bywyd gwyllt ar waliau'n fwy amrywiol mewn ardaloedd â lefel isel o lygredd a lle nad oes unrhyw darfu wedi bod ar y wal am flynyddoedd lawer.





Eiddew

Hedera helix

Yn blodeuo Medi – Tachwedd

Mae eiddew yn blanhigyn dringo bythwyrdd. Mae ganddo ddwy ffurf wahanol, ifanc ac aeddfed. Mae gan ddail yr eiddew ifanc 3 i 5 llabed. Wrth i'r planhigyn aeddfedu, mae'r dail yn datblygu i fod yn hirgrwn, gwyrdd tywyll a sgleiniog. Unwaith mae'n aeddfed, mae eiddew'n cynhyrchu blodau melynwyrdd mewn clystyrau o'r enw wmbelau ddechrau'r hydref. Dilynir y blodau gan ffrwythau duon crwn.



Tafod yr Hydd

Asplenium scolopendrium

Mae'n hawdd adnabod y rhedynen yma, mae'r ffrond yn llafn sengl gwyrdd, sgleiniog, gyda sborau oren oddi tanodd.



Trwyn-y-llo Dail Eiddew

Cymbalaria muralis

Yn blodeuo drwy gydol y flwyddyn

Gyda dail siâp eiddew bychain gwyrdd, mae'r planhigyn yma'n tyfu i fod yn 8cm o hyd. Mae ei flodau mân yn borffor golau gyda lympiâu gwyn a melyn. Mae ganddo goesynnau cochion ac mae'n blanhigyn ymledol.

Y ffordd hawsaf o adnabod coed yw pan maent yn eu dail. Ceisiwch gyfateb siapiau'r dail yma gyda'r rhai y gallwch ddod o hyd iddynt.



Ynn mae gan y coed setiau o ddail mewn 3 i 6 phâr gyferbyn gyda deilen ychwanegol ym mhen pob set. Mae'r rhisgl llyfn yn llwydwyrd d gan oleuo gydag oedran a datblygu rhwygiadau bas dros amser. Mae gan goed ynn hen iawn risgl tebyg i dderw. Yn y gaeaf, mae gan ynn flagur du nodedig.



Ffawydd dail sgleiniog gyda blew ar yr ymylon a rhisgl llyfn. Yn y gaeaf mae ganddynt flagur dail cochfrown gyda phatrwm cris croes.



Drain Gwynion coeden ddreiniog, berthog yn gyffredinol gyda dail bychain sy'n agor yn wyrdd llachar ar ddechrau'r gwanwyn. Mae'r rhisgl yn llyfn ac yn llwyd ar y coed ifanc gyda chraciau cul yn rhedeg i lawr y coesyn gan ddatblygu wrth i'r goeden aeddfedu.




Derw dail hir gyda siâp llabedi nodedig. Mae'r rhisgl yn arw ac yn gnotiog. Mae gan y coed fes yn yr hydref ac yn y gaeaf mae'r brigau'n edrych fel migyrnau.



Cyll coeden berthog yn aml a fydd yn tyfu'n ôl gyda choesydd lluosog os bydd yn cael ei thocio neu ei thorri. Mae'r dail yn grwn gydag ymylon danheddog, yn flewog oddi tanodd ac yn bigog yn y blaen. Mae'r rhisgl yn sgleiniog bron gyda marciau o amgylch y coesyddau.



Celyn maent yn cadw eu dail sgleiniog drwy gydol y flwyddyn. Maent yn bigog ar y coed ifanc ond yn llyfn ar yr hen goed. Mae'r rhisgl yn llyfn a thenau gyda llawer o ddafadennau brown. Mae gan goed celyn aeron cochion gwenwynig.



Sycamorwydd dail gyda phum llabed (palfaidd), mae'r coesau ar y dail ifanc yn goch. Mae'r rhisgl yn llwyd neu arian ac yn datblygu craciau a chennau mawr sy'n pilio wrth i'r coed aeddfedu.

Mae coed yw wedi bod â chysylltiad ers amser maith â mynwentydd, yn ogystal â gweithgareddau cyn-Gristnogol. Rydych yn fwyaf tebygol o ddod ar draws dau fath o goed yw ar safleoedd claddu, yw cyffredin a'r is-rywogaeth, yr ywen Wyddelig. Yr ywen yw'r goeden â'r hirhoedledd mwyaf yng ngogledd Ewrop. Mae ganddi nodwyddau syth, bach a fflat gyda blaen pigog ac mae'r rhain yn tyfu mewn dwy res ar y naill ochr i bob brigyn. Nid yw coed yw yn cludo eu hadau mewn côn ond yn hytrach mae pob hedyn wedi'i amgáu mewn strwythur coch, cnawdog tebyg i aeron o'r enw aril sydd ar agor yn y blaen. Mae dail, rhisgl a chôt hadau coed yw yn cynnwys coctel o gemegau gwenynig iawn. Dim ond yr aril coch sydd ddim yn wenwynig.

Ywen Gyffredin


Taxus baccata

Mae gan Ywen Gyffredin siâp crwn gyda cheinciau hir ar dro yn plygu i lawr i'r ddaear lle gall wreiddio wedyn. Gall fod â chanopi enfawr yn gorchuddio ardal fawr.

Ywen Wyddelig

Taxus baccata 'fastigiata'

Mae hon yn goeden dalsyth lai, fwy cryno na'r ywen gyffredin.



Common Yew



Aderyn Du
Turdus merula

Mae gan yr aderyn du gwryw blu du, pig melyn llachar a modrwy felen o amgylch ei lygaid. Mae'n tua 25cm o hyd a gellir ei weld yn hopian neu'n rhedeg ar hyd y ddaear. Mae'n plygu ei ben i un ochr i wrando am bryfed genwair. Mae'r fenyw ychydig yn llai na'r gwryw ac yn frown ac nid oes ganddi nodweddion melyn nodedig y gwryw.



Robin Goch
Erithacus rubecula

Gyda'i frest goch lachar, mae'r robin goch i'w weld drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gwrywod a'r benywod yn edrych yn union yr un fath yn tua 14cm o hyd, ac nid oes gan yr adar ifanc frest goch ac maen nhw'n smotio gyda brown euraid. Mae'r robin goch yn canu drwy gydol y flwyddyn bron ac er ei fod yn edrych yn gyfeillgar, mae'n ffrynig o diriogaethol ac yn barod iawn i yrru adar dieithr i ffwrdd.



Siglen Fraith

Motacilla alba

Mae'r siglen fraith yn aderyn bach (18cm) du a gwyn bywiog gyda chynffon hir. Pan nad yw'n sefyll ac yn siglo'i gynffon yn wyllt i fyny ac i lawr, mae i'w weld yn gwibio ar hyd lawntiau neu feysydd parcio'n chwilio am fwyd.

Gwennol Ddu

Apus apus

Mae gan wenioliaid duon gorff siâp torpedo sy'n frown tywyll i gyd, gydag adenydd hir siâp cryman a chynffon fforchiog. Maent tua 16cm o hyd. Nid yw gwenoliaid duon yn gallu cerdded ac maent yn treulio eu bywydau cyfan yn hedfan ac eithrio pan maent yn nythu. Maent yn cysgu wrth hedfan hyd yn oed. Mae gan wenioliaid duon sgrech dreiddgar nodedig ac efallai y gwelwch hwy'n nythu o dan fondo eglwys. Yn ymwelwyr haf â'r DU, maent yn cyrraedd rhwng mis Mai a mis Mehefin ac yn gadael ym mis Awst.





Gwennol

Hirundo rustica

Ymwelwyr haf â'r DU yw gwenoliaid ac maent yn cyrraedd rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Mae gwenoliaid yn 15 i 20cm o hyd a gellir eu hadnabod oddi wrth eu cynffonnau hir, fforchiog a'u hadenydd hir, cul. Mae ganddynt wddw a thalcen coch, maent yn hufen o dan y bol ac mae'r cefn yn ddulas tywyll. Mae gwenoliaid yn hoffi nythu mewn adeiladau fel ysguboriau a chlasordai.



Gwennol y Bondo

Delichon urbica

Adar bach yw'r rhain, tua 12cm o hyd gyda phlu uchaf dulas sgleiniog ac adenydd main effeithlon. Mae ganddynt fand gwyn ar draws eu cefn a chynffonnau fforchiog byr. Byddwch yn ofalus rhag eu cymysgu â gwenoliaid. Mae gan wennol y bondo gynffon fyrrach a gên wen. Pur anaml maent i'w gweld ar y ddaear ac eithrio pan maent yn casglu mwd i adeiladu eu nythod, y maent yn eu gosod ar waliau o dan y siliau ac yng nghrib toeau, ar du allan adeiladau.



Morgrug Melyn y Ddôl

Lasius flavus

Mae hen safleoedd claddu wedi dod yn lloches i forgrug melyn y ddôl diniwed oherwydd maent yn byw mewn porfa barhaol, sydd wedi dod yn gynefin prin. Mae'r morgrugyn yma'n creu twmpathau mawr, yn aml yn erbyn cerrig beddau, yn wynebu'r haul. Wrth i nifer y gweithwyr gynyddu, felly hefyd maint y twmpath. Mae'n dod yn labyrint afreolaidd o gelloedd a choridorau a'r cyfan wedi'i wneud o bridd, gyda'r un faint o'r twmpath uwch ben ac o dan y ddaear. Gall y twmpathau fod yn fwy na 100 oed a ffurfio mini-gynefin eu hunain. Mae morgrug angen cynhesrwydd yr haul ac felly maent yn torri'r gwair sy'n tyfu ar yr arwyneb yn ôl.





Glöyn Byw Melyn y Rhafnwydd

Gonepteryx rhamni

Glöyn byw cyntaf y gwanwyn yn aml ac mae gwryw melyn y rhafnwydd yn lliw melyn sylffwr gydag un smotyn oren ar bob adain. Mae'r fenyw yn wyrdd golau, a hefyd gyda smotyn oren ar bob adain. Mae eu hadenydd yn siâp dail gyda'r darnau oddi tanodd yn olau.



Glöyn Byw Mantell Paun

Aglais io


Mae gan y fantell paun adenydd coch tywyll gyda phedwar 'llygad' nodedig (fel y rhai ar blu paun) ac ymylon tywyll. Mae eu cyrff yn goch tywyll a blewog.




Mantell Goch

Vanessa atalanta

Maent yn hawdd eu hadnabod oddi wrth eu lliwiau tywyll a'u bandiau coch nodedig, y smotiau gwyn a'r smotiau glas bychain ar hyd ymylon yr adenydd.



gwryw



benyw

Glesyn y Celyn

Celastrina argiolus

Er bod sawl glöyn byw yn edrych yn debyg i lesyn y celyn, dyma'r cyntaf i ddod i'r amlwg ddiwedd mis Mawrth/dechrau mis Ebrill. Mae'r glöyn byw yma i'w weld yn aml mewn safleoedd claddu oherwydd mae arno angen planhigion celyn ac eiddew. Mae ganddo smotiau du ar isadenydd glas golau a gall edrych yn ariannaidd wrth hedfan. Mae i'w weld yn aml yn uchel i fyny mewn coed celyn yn hytrach nag yn agos at y ddaear.



Gwyfyn Teigr y Benfelen


Tyria jacobaeae

Mae'r gwyfyn teigr y benfelen yn rhywogaeth gyffredin yn ne a chanolbarth Ynysoedd Prydain. Cadwch lygad am y gwyfyn trawiadol yma rhwng diwedd mis Ebrill a mis Awst neu'r lindys melyn a du streipiog rhwng misoedd Mai ac Awst. Mae posib gweld y gwyfyn yma'n hedfan yn ystod y dydd, yn wahanol i'r rhan fwyaf o wyfynod.



Buwch Goch Gota Smotiog
Coccinella septempunctata

Mae buchod coch cota'n chwilog crwn gyda chloriau adenydd coch yn gwarchod yr adenydd cain oddi tanodd. Mae gan y rhai 7 smotyn dri smotyn ar glawr pob adain a'r seithfed yn smotyn canolog lle mae cloriau'r adenydd yn cyfarfod yn y canol. Mae ganddynt antena byr ar y pen a marciau golau ar flaen y corff. Mae crafanc ar flaen pob un o'r chwe choes.



Buwch Goch Gota Amrywiol
Harmonia axyridis

Mae mwy na 100 o amrywiaethau o batrymau ar fuchod coch cota amrywiol. Gall y rhain fod yn ddu gyda 4 smotyn coch neu oren goch gydag wyth smotyn ar glawr pob adain a siâp du lle mae cloriau'r adenydd yn cyfarfod. Rhywogaeth anfrodorol o fuchg goch gota yw hon ac mae'n dod yn amlycach yn y DU.

Mae llawer o wahanol fathau o ffyngau i'w gweld mewn safleoedd claddu, gyda'r rhan fwyaf yn ymddangos yn yr hydref. Gall glaswellt wedi'i dorri'n fyr fod yn dda i gapiau cwyr ac mae sêr daear yn ymddangos o dan goed yw a chonwydd yn aml. Cadwch lygad o amgylch ymylon y safle claddu ar bentyrrau o goed ac wrth fôn y coed. Byddwch yn ofalus bob amser wrth gyffwrdd ffyngau a golchwch eich dwylo bob amser cyn cyffwrdd eich wyneb neu fwyta.

Mae ffyngau'n rhan o gymuned amrywiol o "ddadelfenwyr" sy'n torri planhigion ac anifeiliaid marw i lawr. Mae ffyngau'n trawsnewid sylwedd organig yn ffurfiau y gall dadelfenwyr eraill eu defnyddio, ac yn fynd ar gyfer planhigion.



Amanita'r Gwybed


Amanita muscaria

Un o'r ffyngau hawsaf ei adnabod yn y DU. Mae gan y top coch smotiau gwynion fel defaid sy'n syrthio oddi arno gydag oedran a gall y cap bylu ei liw i oren. Mae'r goes a'r giliau (o dan y cap) yn wyn. Byddwch yn eu gweld yn tyfu gyda choed bedw a phîn.

Yn aml mae cennau'n ffurfio mosaig o liw, yn enwedig ar waith carreg. Mae cennau'n ddau neu fwy o organebau sy'n byw gyda'i gilydd fel un, ffwng, alga a/neu syanofacteria. Mae cennau'n eithriadol gyfoethog ac amrywiol mewn safleoedd heb eu llygru.

Mae tri phrif fath o Gen:

Mae mynwentydd a safleoedd claddu'n eithriadol bwysig i gadwraeth cennau, yn enwedig lle nad oes unrhyw allgreigiau naturiol. Hefyd mae cennau i'w gweld ar goed, strwythurau pren fel ffensys a giatiau, ardaloedd glaswelltog, llwybrau a hyd yn oed ar gaeadau biniau rwber! O blith y 2000 o rywogaethau o gennau yn y DU, mae mwy na 700 wedi'u canfod mewn safleoedd claddu. Mae bron i hanner y rhain yn brin a phur anaml i'w gweld mewn lleoliadau eraill.



Cennog – (crystiog) mae'r cennau yma'n gennau fflat sydd wedi glynu'n gadarn wrth gerrig ac nid yw'n hawdd eu tynnu gydag ewinedd.



Deiliog – (fel dail) mae gan y cennau yma ymylon deiliog ac mae posib eu tynnu oddi ar garreg gydag ewinedd.



Llwynaid – (fel prysgwydd) mae'r cennau yma'n drwchus ac fel rheol dim ond ar un pwynt maent yn glynu.

Mae rhai anifeiliaid yn anodd eu gweld mewn safleoedd claddu ond maent yn gadael arwyddion eu bod wedi bod yno...



Tail Cwningod

Mae cwningod yn cynhyrchu peledi bychain crwn a chaled sy'n olau eu lliw. Os ydych chi'n siŵr bod y tail wedi dod o gwningen, gallwch wneud cofnod o gwningen ar y safle.



Twmpath Twrch Daear

Mae tyrchod daear yn byw o dan y ddaear ac ni fyddwch yn eu gweld fel rheol. Fodd bynnag, mae presenoldeb twmpathau tyrchod daear yn arwydd clir o dyrchod daear a gellir gwneud cofnod o dyrchod daear yn seiliedig ar weld twmpath. Mae tyrchod daear yn parlysu pryfed genwair a phryfed gyda gwenwyn yn eu poer ac wedyn maent yn storio'r pryfed mewn ystafell o dan y ddaear yn barod i'w bwyta yn nes ymlaen.



Peledi Tylluanod

Gweddillion wedi'u poeri o anifail na all yr aderyn ei dreulio yw'r peledi ac maent yn cael eu camgymryd yn aml am dail. Mewn adar ysglyfaethus a thylluanod, yn aml mae'n anodd dweud pa beledi adar sydd wedi dod o ba rywogaethau. Chwiliwch am ganllawiau adnabod peledi ar-lein i'ch helpu chi i benderfynu o ba rywogaethau mae'r peledi rydych chi wedi dod o hyd iddynt wedi dod.



Mae llwynogod yn olygfa gyffredin mewn llawer o drefi a dinasoedd. Mae eu holion traed yn debyg i rai cŵn gan fod ganddynt yr un nifer o badiâu, ond mae eu traed yn llawer culach yn gyffredinol ac yn tueddu i fod mewn llinell gyda'i gilydd.



Oni bai eich bod chi'n byw yn Cumbria, cefn gwlad yr Alban neu ar Ynys Wyth, mae unrhyw olion traed welwch chi'n debygol o berthyn i'r wiwer lwyd yn hytrach na'r wiwer goch. Mae gan y ddwy rywogaeth draed ôl llawer mwy na'r traed blaen.




Mae olion traed draenogod yn anodd eu gweld ond yn eithaf nodedig am eu bod yn siâp hir a chul. Mae ganddynt dri bys sy'n pwyntio ymlaen a dau sy'n mynd allan i'r ochrau.



Cath



Ci



Mae siawns bob amser bod moch daear yn ymweld â'ch safle chi. Mae olion eu traed yn fawr a chadarn gyda phump o fysedd traed.

Cnau Wedi'u Cnoi

Mae cnau cyll yn boblogaidd gyda llawer o famaliaid bychain ac mae'r ffordd mae'r gneuen yn cael ei hgor yn gallu dweud wrthych chi pwy sydd wedi ei bwyta. Mae hyn yn ddefnyddiol iawn ar gyfer dweud a yw pathewod yn bresennol, gan eu bod yn anifeiliaid cyfrinachol a dydych chi ddim yn debygol iawn o weld un.

Mae angen gêm a dannedd cryf i agor cneuen gyll. Felly, os dowch chi o hyd i gneuen wag wedi'i thorri'n ddwy, neu ei chwalu'n ddarnau mân, mae'n debyg bod y gneuen wedi cael ei bwyta gan wiwer.

Mae gan lygod pengrwn coch ddannedd mawr, cryf felly maent yn gallu brathu yn hytrach na chnoi drwodd i'r canol. Yn aml iawn byddant yn gadael twll afreolaidd eithaf crwn yn y clawr. Nid ydynt yn tueddu i adael llawer o olion dannedd ar y gneuen ger y twll.



Gwiwer



Llygoden Apodemws



Llygoden Bengron Goch



Pathew

Gwahaniaethu rhwng cnau sydd wedi'u bwyta gan lygod *apodemws* (lygod y coed a llygod bronfelyn) a pathewod.

Mae'r ddau fath o lygoden yn cnoi tyllau crwn taclus yn y gneuen, felly mae angen i chi edrych yn ofalus. Mae chwyddwydr yn helpu. Bydd gan dwll sydd wedi'i gnoi gan lygoden *apodemws* farciau dannedd yn mynd i lawr ymyl y twll (yn fertigol). Maent yn gadael mwy o grafiadau ar y tu allan na llygod pengrwn coch hefyd. Bydd gan gnau sydd wedi'u cnoi gan bathewod arwyneb mewnol llyfn yn y twll, gan eu bod yn cnoi fel agorwr tuniau gan droi'r gneuen wrth fwyta, yn hytrach nag ar i lawr.

Cliw arall i'ch helpu chi i ddweud y gwahaniaeth rhwng cnau wedi'u cnoi gan *apodemws* a pathewod yw ble rydych chi'n dod o hyd iddynt. Os dewch chi o hyd i storfa o gnau wedi'u cnoi, mae'n debygol o fod yn *apodemws*. Yn gyffredinol, mae pathewod yn tueddu i fwyta ac wedyn gollwng y cnau lle maent yn dod o hyd iddynt, felly mae eu cnau wedi'u gwasgaru mwy yn aml.

Os dewch chi o hyd i gneuen gyda thwll bach iawn (1 i 2mm ar draws efallai), mae'n bur debyg mai pryf sydd wedi bwyta hon.

Anifeiliaid fel llyffantod, llyffantod dafadennog a madfallod dŵr yw amffibiaid. Maent yn mynd drwy gyfnod larfal mewn dŵr ond mae'r oedolion yn treulio llawer o'u hamser allan o ddŵr. Canol mis Ionawr i fis Mai yw'r amser pryd mae ein hamffibiaid brodorol yn symud i wlybdiroedd i ddodwy eu hwyau. Yn aml gallwch ddod o hyd i'r oedolion yn mudo i (yn ogystal â thu mewn ac o amgylch) ymylon camlesi a phyllau i chwilio am gymar.



Llyffantod
Rana temporaria

Mae llyffantod yn tueddu i fod â chroen gwyrdd lliw olifau gyda darnau brown, ond gall y lliwiau amrywio. Mae ganddynt goesau ôl cyhyrog a llinell yn rhedeg drwy'r llygaid. Mae grifft llyffantod yn edrych fel jeli trwchus gyda brychau tywyll drwyddo.



Llyffantod Dafadennog
Bufo bufo

Mae llyffantod dafadennog yn amrywio o ran lliw o frown tywyll, llwyd a gwyrdd olifau i liw tywod. Mae ganddynt gyrff llydan, byr a chroen dafadennog. Maent bob amser yn cerdded yn hytrach na sboncio. Mae grifft llyffantod dafadennog yn cael ei ddodwy mewn llinynnau, yn eithaf gwahanol i rifft llyffantod.



gwryw




benyw

Madfall Ddŵr Gyffredin

Lissotriton vulgaris

Mae'r fadfall ddŵr gyffredin yn un o'r rhywogaethau o fadfallod ddŵr sydd â'r dosbarthiad ehangaf yn y DU. Gall dyfu i fod yn 10cm o hyd ac mae'n frown fel rheol. Mae'r gwrywod yn datblygu crib tonnog parhaus ar hyd eu cefn yn y tymor magu. Mae bol y ddau ryw yn felyn/oren gyda smotiau duon bychain. Mae'r smotiau ar y gwddw yn ffordd dda o wahaniaethu rhwng y rhywogaeth yma a'r madfallod ddŵr palfog llai cyffredin (heb smotiau ar eu gwddw).



gwryw



benyw

Madfall Ddŵr Gribog

Triturus cristatus

Mae Madfallod Dŵr Cribog wedi'u gwarchod gan y gyfraith ac ni ddylid cyffwrdd ynddynt na tharfu arnynt. O gymharu â madfallod ddŵr eraill, mae'r fadfall ddŵr gribog yn llawer mwy, gan dyfu i hyd at 17cm o hyd. Mae madfallod ddŵr cribog yn frown tywyll neu ddu eu lliw gyda chroen 'dafadennog' nodedig. Mae oddi tanynt yn oren llachar gyda darnau duon afreolaidd. Yn y gwanwyn, mae'r gwrywod yn datblygu crib danheddog nodedig ar hyd eu cefn a 'fflach' wen ar hyd y gynffon.

Mae chwe math o ymlusgiad ym Mhrydain sy'n fadfallod, nadroedd neu nadroedd defaid. Yr amser gorau i'w gweld yw ar foreau heulog yn y gwanwyn a'r hydref pan mae arnynt angen torheulo yn yr haul er mwyn codi tymheredd y corff.



Neidr y Gwair

Matrix natrix

Yr ymlusgiad yma nad yw'n wenwynig yw'r neidr fwyaf yn y DU. Mae'r benywod yn fwy (hyd at 130 cm) na'r gwrywod (tua 100 cm). Mae cefn y neidr yn wyrdd neu frown gyda bariau tywyll a choler felen neu hufen a du ar y gwddw. Mae oddi tanynt yn wyn neu hufen gyda marciau du. Mae'r fenyw yn dodwy wyau mewn llystyfiant cynnes sy'n pydru, fel tomenni compost. Efallai y gwelwch chi hen blisg wyau sy'n wyn ac fel lledr.



Madfall Gyffredin neu Fywesgorol


Zootoca vivipara

Mae'r fadfall yma'n llwyd i frown tywyll, yn aml gyda streipen dywyll yn rhedeg ar hyd y cefn. Mae'r benywod yn felyn, llwyd neu wyrdd oddi tanynt heb fawr ddim smotiau, os o gwbl. Mae'r gwrywod yn oren neu felyn oddi tanynt gyda llawer o smotiau duon. Hefyd mae ffurfiau du i gyd yn bodoli. Mae madfallod yn rhoi genedigaeth i rai bach byw.

Neidr Ddefaid

Anguis fragilis

Er ei bod yn edrych fel neidr fechan, madfall heb goesau yw'r neidr ddefaid. Mae ei lliw yn amrywio o frown i llwyd neu efydd. Mae nadroedd defaid i'w gweld yn aml o dan ddarnau o bren neu fetel. Pur anaml maent yn dod allan i'r awyr agored. Mae'r fenyw yn cadw ei hwyau y tu mewn i'w chorff nes eu bod yn barod i ddeor.






Giatiau'r Pyrth

Mae gan giatiau'r pyrth strwythur fel cyntedd gyda tho dros giât i mewn i fynwent, wedi'u creu o bren yn aml ac roeddent yn rhan allweddol o arferion claddu. Roeddent yn fan cyfarfod ac yn gysgod i'r bobl oedd yn dod â chorff i'w gladdu, ac i'r offeiriad dderbyn y corff. Gan mai strwythurau pren oedd y rhain i raddau helaeth, mae llawer wedi cael eu hadfer a'u newid, neu wedi diflannu dros amser.


Deialau Haul

Byddai gan y rhan fwyaf o eglwysi canoloesol ddeial haul. Efallai y byddai'r rhain ar adeilad yr eglwys, uwchben y cyntedd fel arfer neu ar wyneb deheuol y tŵr. Ei brif bwrpas oedd sicrhau bod y gloch yn cael ei chanu ar yr amser cywir i nodi oriau canonaidd yn ystod y dydd (amseroedd penodol o'r dydd ar gyfer gweddïau). Mewn llawer o lefydd, y deial haul oedd yr unig declyn cadw amser dibynadwy cyhoeddus tan ddechrau'r 19eg ganrif pan ddaeth clociau eglwysig i gymryd lle'r deialau haul.




Croesau Mynwentydd

Mae croesau carreg tal i'w gweld yn aml mewn mynwentydd. Roeddent yn ffocws i wasanaethau a gorymdeithiau awyr agored, yn arbennig ar Sul y Palmwydd, a phregethau achlysurol. Hefyd roedd y groes yn darparu cofgolofn gyffredin i holl feirw'r plwyf cyn i'r arfer o osod cofgolofnau unigol yn eu lle ddod yn gyffredin. Mae llawer wedi goroesi fel carreg sylfaen i stepiau yn unig, ac efallai carreg soced a rhan o'r golofn.



Mwy o wybodaeth

Mae llawer o hen gerrig beddau yn anodd eu darllen nawr oherwydd effaith y tywydd, ond efallai bod unigolion a chymdeithasau hanes teuluol wedi cofnodi eu harysgrifau a'u cyhoeddi, naill ai ar-lein neu ar ffurf microfiche neu lyfr. Bydd eich gwasanaeth archifau sirol yn gallu eich helpu i ddod o hyd i'r rhain.




Arysgrifau

Arysgrifau coffa yw'r testun ar gerrig beddau neu feddrodau. Efallai bod sawl unigolyn wedi'u claddu mewn un bedd ac felly bydd yr arysgrif yn darparu gwybodaeth am sawl aelod o'r teulu. Mae arysgrifau coffa'n bwysig i achyddion a haneswyr teulu, gan ddarparu gwybodaeth am fywyd a marwolaeth person, gan gynnwys dyddiadau, cyfeiriadau weithiau a galwedigaethau. Mae gan lawer, yn enwedig cerrig beddau o'r 18fed a'r 19eg ganrif, lythrennau hardd iawn.



Symbolau

Gall cerfiadau ar gofgolofnau fod yn helaeth iawn. Gallant hefyd fod yn anodd eu datrys ac yn aml maent yn cynnwys llawer o ystyr. Byddai teulu'r ymadawedig wedi dewis symbolau i adlewyrchu eu defosiwn crefyddol, eu bywydau a ffasiwn yr oes. Mae rhai symbolau'n cael eu defnyddio o hyd heddiw, ond mae symbolau eraill ar gerrig beddau a'u hystyron wedi dod yn fwy aneglur yn ein hoes fodern. Mae rhestr o ystyron y symbolau i'w gweld drwy chwilio ar-lein.



Beddau Rhyfel

Nid yw bodolaeth bedd rhyfel ar safle claddu o reidrwydd yn golygu bod y person wedi'i gladdu yno. Mae llawer yn gofobau i'r rhai sydd wedi marw ond bod eu gweddillion wedi'u claddu yn y wlad lle digwyddodd y gwrthdaro. Nid yw beddau rhyfel wedi'u cyfyngu i farwolaeth wrth ymladd chwaith; maent yn cynnwys personél milwrol sydd wedi marw wrth wasanaethu, e.e. yn ystod Rhyfel y Crimea, bu farw mwy o bersonél milwrol o afiechyd nag o ganlyniad i weithredoedd y gelyn. Mae gan Gomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad gronfa ddata ar-lein o feddau rhyfel ac arysgrifau Prydeinig a'r Gymanwlad.





**11 Drovers House
The Auction Yard
Craven Arms
Shropshire SY7 9BZ**

**01588 673041
info@cfga.org.uk
www.caringforgodsacre.org.uk**

